Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Dydd Gwener, 3 Chwefror 2017

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd C99 1NA

Annwyl Ken

**"Golau yn y Gwyll" – Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr 2016 ynglŷn â'r uchod. Yn eu cyfarfod llawn cyntaf ers cyhoeddi'r Weledigaeth, achubodd fy Nghyngor ar y cyfle yr wythnos hon i drafod y ddogfen yn fanwl. Hoffwn rannu eu hymateb gyda chi.

Mae'n bleser gennyf adrodd bod y Cyngor wedi croesawu eich datganiad yn frwd. Mae'r aelodau yn arbennig o gefnogol o'r pwysigrwydd a roddwch i ddiwylliant yn ogystal ag ehangder y weledigaeth a gyflwynir yn y ddogfen. Roedd aelodau'r Cyngor hefyd eisiau eich llongyfarch ar sicrhau cefnogaeth y Cabinet i'r datganiad. Ni fyddai'r fath gefnogaeth ar y cyd gan y Llywodraeth wedi digwydd, dybiem ni, heb eich eiriolaeth ymroddedig. Bydd hynny'n amlwg yn bwysig iawn wrth sicrhau'r gefnogaeth ar draws y Llywodraeth a fydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni eich agenda uchelgeisiol yn llwyddiannus.

Mae'r Cyngor wedi dadlau ers tro bod modd i'r celfyddydau a diwylliant oleuo a thrawsnewid sawl agwedd ar strategaeth gyhoeddus a bywyd dinesig. Rydym ni wedi ceisio cyfleu hyn yn ein strategaeth *Ysbrydoli* sydd â'r nod o wneud y celfyddydau'n ganolog i fywyd a lles y Genedl. Mae'n galonogol i'r Cyngor weld cysylltiad cryf rhwng *Ysbrydoli* a "Golau yn y Gwyll". Mae'n sefydlu tir cyffredin pwysig a fydd yn cryfhau ein gweithgareddau yn y dyfodol.

Sylwodd y Cyngor ar nifer o themâu cryf yn y datganiad, gan gynnwys:

- cryfder, amrywiaeth ac enw da rhyngwladol diwylliant yng Nghymru
- cyflawniadau sefydliadau celfyddydol allweddol
- yr angen i ddileu rhwystrau rhag ymwneud â diwylliant, gan sicrhau bod mwy o bobl yn gallu mwynhau gweithgarwch creadigol a chymryd rhan ynddo
- dod o hyd i ffyrdd newydd i bobl ifanc ddatblygu eu doniau creadigol a manteisio arnynt

Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL
Ffôn: 0845 8734 900
Ffacs: 029 2044 1400
SMS: 07797 800504
Ebost: gwybodaeth@celf.cymru
Gwefan: www.celf.cymru

Bute Place, Cardiff CF10 5AL
Tel: 0845 8734 900
Fax: 029 2044 1400
SMS: 07797 800504
Email: info@arts.wales
Website: www.arts.wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Swyddfeydd Lleol/Local Offices:
Caerdydd/Cardiff, Bae Colwyn/Colwyn Bay, Caerfyrddin/Carmarthen
Rhif Elusen Gofrestredig/Registered Charity Number: 1034245

- potensial technoleg newydd i gynyddu mynediad at ddiwylliant
- y pwysau ar arian cyhoeddus a'r angen i helpu sefydliadau diwylliannol i ddod yn fwy gwydn
- gwerth ymagwedd draws-lywodraethol tuag at hyrwyddo a chefnogi gweithgarwch diwylliannol
- cyfraniad diwylliant at gyflawni amcanion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Fel y byddech yn disgwyl, mae'r Cyngor yn rhannu'r safbwyntiau hyn.

Gofynnoch yn eich llythyr i ni amlygu'r camau ymarferol y gallai'r Cyngor Celfyddydau eu cymryd i helpu i wireddu'r datganiad diwylliant. Cynigiwn yr ymateb canlynol gan ddefnyddio'r penawdau yn y datganiad.

<u>Ffyniannus a Diogel</u>

Rydych chi'n dangos yn eglur werth economaidd diwylliant i Gymru. Mae'r celfyddydau yn cyfrannu at **economi** Cymru mewn sawl ffordd. Rydym ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod gennym ni sector entrepreneuraidd cryf sy'n greadigol, yn arloesol ac yn gallu manteisio ar ei fuddsoddiad cyhoeddus. Mae'r sefydliadau gorau yn gwneud hyn, a chyfeirir at lawer ohonynt yn eich dogfen. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad yn dweud wrthym fod angen gwneud mwy o waith er mwyn i'n holl brif sefydliadau gyrraedd safon y goreuon.

Rhan allweddol o'n strategaeth fu lansio "Rhaglen Wytnwch" newydd yn ddiweddar ar gyfer ein Portffolio Celfyddydol Cymru. Mae dwy elfen i'r rhaglen – darparu cyngor diagnostig arbenigol, a buddsoddiad cyfalaf (os gellir ei gyfiawnhau) i alluogi newid a chynyddu capasiti. Gallai'r rhaglen hon fod yn bellgyrhaeddol a gweddnewidiol. Mae'n herio sefydliadau i fod yn well – o ran ansawdd eu gwaith, dyfnder eu hymgysylltiad a gwytnwch eu sefydlogrwydd ariannol. Ein rôl ni yw gweithio gyda'r Portffolio i gryfhau perfformiad. Rhown wybodaeth i chi am gynnydd y rhaglen yn ein cyfarfodydd yn y dyfodol.

Croesawn eich ymrwymiad i sefydlu **Cymru Greadigol**.

Rydym ni'n rhannu'r un nod o ddatblygu sgiliau a gallu'r sector creadigol a diwylliannol. Mae darparu canolbwynt eglur ac arbenigol ar gyfer materion diwydiannau creadigol yn bwysicach nag erioed. O ryddhad treth i Eiddo Deallusol, y Farchnad Sengl Ddigidol Ewropeaidd i aelodaeth â Chyngor Diwydiannau Creadigol y Deyrnas Unedig, mae'r cymysgedd o feysydd polisi datganoledig a rhai a gadwyd yn ôl sy'n effeithio ar y diwydiannau creadigol yn golygu ei bod hi'n hanfodol bod llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraeth Cymru yn cydweithio'n effeithiol. Os na fydd hyn yn digwydd, mae perygl go iawn y bydd safbwynt Cymru yn cael ei anwybyddu gan roi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru dan anfantais.

Wrth i Cymru Greadigol gael ei sefydlu, bydd yn bwysig i weithgareddau'r Cyngor Celfyddydau ategu – yn hytrach na dyblygu – rôl Llywodraeth Cymru. Mae'r celfyddydau'n meithrin dychymyg, gweledigaeth a dawn, gan ddarparu llif cyson o syniadau a chynhyrchion newydd sy'n fodd o sicrhau

mantais economaidd trwy'r diwydiannau creadigol. Felly, bydd amlygu'r cysylltiadau priodol rhyngom ni a'r Llywodraeth yn allweddol.

Un enghraifft bwysig yw ein cefnogaeth i'r sector Cerddoriaeth. Rhyngom, rydym ni'n cefnogi amrywiaeth o fentrau sy'n ceisio datblygu'r farchnad ac arddangos yn rhyngwladol – un maes yn unig lle y byddai mwy o gydlyniad yn fuddiol.

Rydym ni wedi sôn yn flaenorol am drefnu cyfarfod i ystyried materion diwydiannau creadigol yn benodol. Mae'n teimlo y byddai hyn yn fuddiol bellach, felly byddaf yn ymgynghori â'ch swyddogion ynglŷn â dyddiad priodol ar gyfer cyfarfod o'r fath.

Rhoddwyd lle blaenllaw i gyfraniad diwylliant at Dwristiaeth yn y datganiad, fel sy'n briodol.

Mae Croeso Cymru yn hyrwyddo asedau twristiaeth y wlad yn frwd a bu'n galonogol gweld ymagwedd fwy soffistigedig o lawer at werthu Cymru – ymdrechu i ddatblygu twristiaeth o ffawdelw tymhorol i refeniw drwy gydol y flwyddyn trwy fanteisio ar apêl ein trysorau diwylliannol unigryw. Mae'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol yn cael eu defnyddio fwyfwy i hyrwyddo cyrchfannau a gwella eu natur gystadleuol a'u hatynioldeb.

Rydym ni'n trafod gyda Croeso Cymru sut y gallant ein helpu ni, a'r sector diwylliannol, i gael gwell dealltwriaeth o ddeinameg bresennol y marchnadoedd ymwelwyr ar gyfer Cymru. Mae ein trafodaethau gyda Croeso Cymru, a'r Uned Digwyddiadau Mawr yn arbennig, wedi cyflawni rhai canlyniadau pwysig, ar sail *ad hoc*. Ond mae angen i ni symud o'r achlysurol i'r strategol, gan weithio'n galetach i gyflawni'r ymagwedd 'gydgysylltiedig' go iawn y mae ei hangen.

Mae ein sefydliadau diwylliannol blaenllaw yn parhau i ddenu ymwelwyr. Ac mae'r mentrau 'Blwyddyn y …' eisoes wedi dwyn ffrwyth trwy ddarparu'r cyd-destun ar gyfer prosiectau mawr fel *Dinas yr Annisgwyl.* Rydym ni'n gweithio i annog prosiectau eraill ar gyfer mentrau 'Blwyddyn y …' yn y dyfodol. Rydym ni hefyd yn cydnabod bod prosiectau seiliedig ar le (fel Coridor Diwylliannol yr A55) yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i berswadio ymwelwyr i fwynhau asedau diwylliannol Cymru.

Rydym ni'n buddsoddi mwy nag £1 filiwn y flwyddyn ar hyn o bryd, er enghraifft, mewn gwyliau yng Nghymru. Mae cyfoeth ac amrywiaeth y gwyliau a gynigir yn sicr yn haeddu cael eu hyrwyddo'n well yn gyffredinol, a byddai hyn yn helpu i gynyddu gwariant gan ymwelwyr ar draws y wlad.

Gall amlygu atyniadau diwylliannol eraill, ynghyd â mannau i fwyta, siopa ac ymlacio gerllaw, helpu ymwelwyr i ddarganfod mwy o Gymru a chael amser gwych hefyd. Erbyn hyn, mae mwy a mwy o dwristiaid yn chwilio am fwy na'r atyniadau cyffredin yn unig – maen nhw eisiau cael profiad 'dilys' o le. Maen nhw'n chwilio am brofiadau go iawn sy'n gofiadwy ac unigryw. Gall y celfyddydau a diwylliant ddarparu hyn, a bwriadwn weithio'n agos gyda Croeso Cymru i ddatblygu mentrau penodol sy'n sicrhau bod niferoedd ymwelwyr yn parhau i gynyddu. Bydd hyn yn cyd-fynd ag agweddau eraill ar ein gwaith, gan gynnwys y cysylltiadau economaidd a diwylliannol rydym ni'n eu datblygu'n rhyngwladol.

Mae cyfraniad diwylliant at **Adfywio** yn cael ei gydnabod yn gyffredin erbyn hyn, er bod ymsefydlu diwylliant mewn prosiectau seilwaith yn aml yn anoddach nag y dylai fod.

Mae'r negeseuon cadarnhaol yn y datganiad yn taro'r hoelen ar ei phen, ond rwy'n amau y bydd arnom angen eich eiriolaeth a'ch arweinyddiaeth i sicrhau bod penderfynwyr allweddol yn eu deall.

Mae diwylliant yn sylfaenol i'r ffordd y mae dinas, man neu gymuned yn ei chyflwyno ei hun. Gellir gweld hyn yn yr ansawdd bywyd y mae'n ei ddarparu, a'r graddau y mae'n cynnig cyfleoedd ymgysylltiol, cynhwysol a democrataidd i'w dinasyddion. Credwn fod cyfleoedd pwysig ar gael yn awr i newid natur y drafodaeth ar y materion hyn.

Mae cyfryngau adfywio newydd fel Cytundebau Dinas a'r Prifddinas-ranbarth a'r Metro yn ailddiffinio sut mae pecynnau buddsoddi'n cael eu rhoi at ei gilydd. Ond ni ellir cyfiawnhau'r datblygiadau hyn ar sail y seilwaith ffisegol maen nhw'n ei greu yn unig. Mae angen iddynt fod yn rhan o weledigaeth gyfannol o'r ffordd y mae dinas yn byw ac anadlu a'r lles y mae'n ei greu.

Mae eich cydweithiwr, Alun Davies AC, wedi gofyn i ni ystyried sut gallai diwylliant a'r celfyddydau fod yn rhan o'i dasglu newydd, sef Tasglu'r Cymoedd. Mae'n deall bod diwylliant yn allweddol – gan weithredu a chael ei gydnabod ar bob lefel o fywyd cymunedol, a'i hwyluso, ei drefnu, ei fywiogi, ei gefnogi, ei broffilio, ei goleddu, a'i feithrin. Oherwydd bod adfywio'n ymwneud â mwy nag adeiladau a seilwaith yn unig.

Mae ein prosiectau *Syniadau: Pobl: Lleoedd* yn datblygu ffyrdd newydd pwysig i gymunedau ymwneud â phrosiectau adfywio, gan daflu goleuni newydd ar sut mae prosiectau'n gallu gweithio ar draws tir y cyhoedd i greu amgylcheddau gwell, sy'n brafiach i fyw ynddynt. Edrychwn ymlaen at rannu'r canlyniadau wrth i'r prosiectau hyn gael eu cwblhau. Mae llawer o'r prosiectau yn ychwanegu at fuddsoddiad y Llywodraeth trwy'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ac rydym ni'n dysgu llawer am wahanol ffyrdd o rymuso cymunedau trwy adfywio.

Mae'n galonogol, yn y cyfnod heriol hwn, gweld y pwyslais y mae'r datganiad yn ei roi ar weithio'n **rhyngwladol**. Mae hynny yr un mor bwysig i ni.

Mae datblygu marchnadoedd rhyngwladol newydd yn dod yn gynyddol bwysig yn rhan o strategaeth ehangach i ddatblygu cynaliadwyedd ariannol llawer o sefydliadau celfyddydol Cymru. Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, sef cangen ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru, yn arwain y gwaith hwn a'r rhaglenni sy'n deillio o gytundeb partneriaeth y Cyngor Celfyddydau â'r Cyngor Prydeinig.

O dan ein 'brand' Celfyddydau Rhyngwladol Cymru sydd wedi'i hen sefydlu, bydd y Cyngor Celfyddydau yn parhau i gynnal rhaglenni ar ran, a chyda, Llywodraeth Cymru mewn gwledydd blaenoriaeth. Ac yn sgil cyhoeddi'r Rhaglen Lywodraethu, a'r pwysigrwydd y mae'n ei roi i le Cymru yn y byd, mae'n adeg briodol i archwilio ymhellach sut gallwn weithio'n fwy effeithlon gyda Llywodraeth Cymru i wireddu potensial llawn ymgysylltu rhyngwladol.

Credwn fod cyfle yma i wneud mwy gyda'n gilydd.

Mae diwylliant a'r celfyddydau yn galluogi'r Cyngor a Llywodraeth Cymru i greu proffil ar gyfer Cymru trwy ddatblygu ein celfyddydau'n rhyngwladol. Ond mae cynyddu gwaith rhyngwladol ar adeg pan fo buddsoddiad yn y celfyddydau'n cael ei gwtogi gartref yn heriol. Er hynny, gwelwn gyfleoedd go iawn i gefnogi agenda cysylltiadau diwylliannol gwell y Llywodraeth yn Tsieina ac India.

Credwn hefyd, wrth i ni nesáu at adael yr Undeb Ewropeaidd, y gall y celfyddydau gyfrannu'n sylweddol at gyfleu'r math o genedl allblyg y mae Llywodraeth Cymru eisiau ei gweld yn cael ei hatgyfnerthu yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae cyflawni'r budd rhyngwladol llawn yn gofyn am fuddsoddiad priodol ac ymagwedd 'gydgysylltiedig' ar draws y Llywodraeth, a rhyngom ni a'r Llywodraeth. Er enghraifft, dangosodd gweithgarwch a oedd yn canolbwyntio ar Dsieina gan Bennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru awydd go iawn i ddatblygu cysylltiadau economaidd a diwylliannol rhwng ein dwy wlad. Ond mae hynny'n gofyn am ymrwymiad parhaus. Ni fyddai angen adnoddau ariannol enfawr, ond bydd angen rhywfaint.

Mae'r cyfarfodydd cychwynnol yr ydym wedi'u cael gyda swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru wedi bod yn gadarnhaol. Cydnabyddir y potensial. Mae'n rhaid i ni bellach lunio agenda eglur ar gyfer gweithredu a strwythur cynnal y neilltuwyd adnoddau priodol iddo. Ond rhaid i ni beidio â cholli momentwm ac mae arnom angen eich cymorth chi i annog y trafodaethau hyn tuag at gasgliad ymarferol.

<u>Iach ac Egnïol</u>

Mae'n siwr y byddwch yn ymwybodol o'r corff cynyddol o ymchwil academaidd sy'n dangos yr effaith gadarnhaol y gall ymwneud â gweithgarwch creadigol ei chael ar **iechyd a lles**. Mae nifer o'n prosiectau a'n sefydliadau celfyddydol wedi arloesi gwaith yn y maes hwn, ac rydym ni wedi trefnu a hyrwyddo llawer o weithgarwch blaengar ledled Cymru. Gwyddom fod y celfyddydau'n gallu gwella iechyd pobl a chanddynt broblemau iechyd meddyliol neu gorfforol. Ond wrth i weithgarwch, ymarfer ac ymchwil ddatblygu, rhoddwyd mwy o amlygrwydd i'r cyfleoedd a gynigir gan y celfyddydau i <u>atal</u> iechyd gwael.

Ein dadl ni yw bod mentrau celfyddydau ac iechyd – sy'n rhad ond gwerthfawr yn gyffredinol – yn cynnig enillion da ar fuddsoddiad. O safbwynt economaidd yn unig, mae eu gallu i greu cyfalaf cymdeithasol a datblygu unigolion a chymunedau mwy gwydn yn gallu arwain at welliant amlwg mewn lles. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â pholisïau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb iechyd. Gall y celfyddydau ac iechyd helpu i adfywio, cryfhau a chyfoethogi rhai o'n cymunedau tlotaf a gwella ansawdd bywyd pobl sydd dan anfantais a phobl agored i niwed. Mae hyn yn flaenoriaeth gwbl gyfiawn, ac un rydym ni'n ei rhannu.

Er mwyn i ni gael effaith go iawn, mae'n rhaid i ni fod yn eglur iawn ynglŷn â phwynt priodol ymyrraeth ddiwylliannol.  Ystyriwn y gallai menter Celfyddydau ac Iechyd newydd gael yr un effaith â Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau.  Fodd bynnag, yn yr un modd â'r rhaglen Dysgu Creadigol, mae'n rhaid i'r hyn y penderfynwn ei wneud gael ei seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chanlyniadau bwriadedig pendant.

Rydym ni wedi awgrymu'n flaenorol mai'r ffordd briodol o symud ymlaen fyddai i Lywodraeth Cymru gomisiynu'r gwaith ymchwil cychwynnol, y byddem ni'n falch o gynorthwyo ag ef.  Mae Dysgu Creadigol wedi gweithio oherwydd yr oedd y Llywodraeth gyfan yn 'berchen' arno o'r cychwyn. Mae'r Celfyddydau ac Iechyd yn haeddu'r un ymagwedd arbennig.

Anfonwyd copi atom o ohebiaeth ddiweddar rhwng Vaughan Gething AC ac Eluned Morgan AC (sydd, fel y gwyddoch, yn cadeirio grŵp Cynulliad trawsbleidiol ar y Celfyddydau ac Iechyd).  Mae'n llythyr cefnogol, ac mae hyn i'w groesawu'n fawr.  Ond nid yw'n amlygu unrhyw adnoddau ar gyfer cam ymchwil y prosiect hwn.  Rydym ni'n llwyr ddeall y pwysau niferus sy'n wynebu cyllidebau Iechyd, ond mae <u>yn</u> fater o ymrwymiad, hyd yn oed ar y cam cynnar hwn.

Nid ydym yn dadlau dros symiau mawr.  Fodd bynnag, credwn fod gwaith ymchwil a seiliwyd ac a dargedwyd yn briodol a chasglu corff cynyddol o dystiolaeth gyfredol – a gomisiynwyd ar y cyd gennych chi ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd – yn rhoi buddiant i chi'ch dau yn ei ganlyniadau yn y pen draw.  Efallai mai eich eiriolaeth fwyaf perswadiol fydd yn ennill y ddadl, a gobeithiaf y gallwn eich annog i weld yr hyn y gellid ei gyflawni.

<u>Uchelgais a Dysgu</u>

Rydym ni'n falch o weld ein prosiect ar y cyd, Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau, yn cael lle mor flaenllaw yn y datganiad.  Rydym ni wedi cael ymateb rhagorol i'r fenter **addysg gelfyddydol** arloesol hon gan eich cydweithiwr yn y Cabinet, Kirsty Williams AC, sydd wedi nodi'n arbennig y diddordeb y mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad (OECD) yn ei ddangos yn y rhaglen.  Gallai hyn fod yn fenter addysgol lle mae Cymru'n arwain y byd.

Erbyn hyn, mae 276 o ysgolion yn rhan o'r rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol, sef bron 18 y cant o'r ysgolion yng Nghymru.  Ac fe allai ein rownd ddiweddaraf o geisiadau weld y nifer hwn yn cynyddu i fwy na 530 erbyn trydedd flwyddyn y rhaglen.  Yn ogystal â chefnogi'r broses o gyflwyno'r rhaglen i fwy o ysgolion, ein her strategol yw sicrhau bod creadigrwydd yn cael ei ymsefydlu'n gadarn yn y cwricwlwm newydd.

Mae'r pedwar Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn nesáu at ddiwedd eu blwyddyn weithredu gyntaf ac maen nhw bellach wedi'u sefydlu'n dda iawn yn eu rhanbarthau unigol.  Mae ganddynt lawer iawn i'w gynnig o ran cyfuno a lledaenu arbenigedd yn ymwneud â'r celfyddydau creadigol a mynegiannol a'u rôl mewn cyd-destun addysgol.  Gobeithiwn y gallant hwy chwarae rôl allweddol mewn helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd hefyd.

Dangosodd llwyddiant ein presenoldeb yn y ddau ddigwyddiad SgiliauCymru a gynhaliwyd ym mis Tachwedd ddiddordeb ein pobl ifanc yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol. Rydym ni'n awyddus i ychwanegu at y digwyddiadau hyn er mwyn sicrhau bod mwy o bobl ifanc ledled Cymru yn cael mynediad at wybodaeth am ymuno â'r proffesiynau creadigol hyn.

Rydym ni wedi cyrraedd sefyllfa lle mae'r rhaglen Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau yn cysylltu gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau'r Portffolio Celfyddydol mewn ffyrdd sy'n cael effaith fawr ar addysg pobl ifanc.

Os gallwn gydblethu buddiannau'r ymagwedd hon â cham nesaf datblygu'r cwricwlwm, gallem gyflawni'r nod o ymsefydlu creadigrwydd fel nodwedd o'r addysg a gynigir yng Nghymru.

Dro ar ôl tro, rydym ni wedi gweld y gwaith pwysig y gall y celfyddydau ei wneud wrth gyrraedd y rhai hynny sydd mewn perygl o beidio â chyflawni trwy'r llwybrau addysgol arferol. Mae ein cefnogaeth ehangach i'r celfyddydau a phobl ifanc yn mynd i'r afael â hyn. Mae RAW yn ei hail flwyddyn, sef gŵyl sy'n cael ei ffurfio a'i chyflwyno gan bobl ifanc. Ac mae ein rhaglen Criw Celf yn cael ei chyflwyno ym mhob rhan o Gymru erbyn hyn, gan ysgogi brwdfrydedd dros y celfyddydau gweledol ymhlith pobl ifanc.

Croesawn gymeradwyo canfyddiadau'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd gennym ynglŷn â sefydlu Gwaddol Cenedlaethol newydd ar gyfer Cerddoriaeth. Bwriadwn ddatblygu'r cam sefydlu ar gyfer y fenter hon yn gyflym er mwyn cynnal y momentwm. Mae'r buddsoddiad cychwynnol gan Lywodraeth Cymru yn arwydd clir o fwriad, ac fe allai hwn fod yn fodel o arwyddocâd rhyngwladol a wnaed yng Nghymru.

<u>Unedig a Chysylltiedig</u>

Rydym ni wedi ymroi'n llwyr i'r nod cyffredin o fynd i'r afael â **thlodi ac anfantais**. Dyma un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Ond rydym ni'n cydnabod bod gormod o bobl yng Nghymru o hyd nad ydynt yn cael cyfle i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Credwn fod yr achosion sylfaenol yn gysylltiedig â phatrymau hanesyddol o gyllido a datblygu. Y gwirionedd annifyr yw bod rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig yn 'mwynhau' rhai o'r lefelau isaf o gyllid celfyddydau. Mae'n rhaid i'r Cyngor Celfyddydau dderbyn ei ran o'r cyfrifoldeb, ond mae'n rhaid i'r ymrwymiad i fynd i'r afael â'r diffygion hyn gael ei rannu gan gyrff eraill sy'n rhoi grantiau. Heb fuddsoddiad, ni fydd cyfleoedd newydd yn cael eu datblygu. Ac oni bai bod buddsoddiad parhaus mewn gweithgarwch perthnasol o ansawdd da, bydd unrhyw fentrau newydd sy'n dod i'r amlwg yn cael trafferth datblygu ac ymwreiddio. Ni ellir goddef yr anghydraddoldebau a welwn ar hyn o bryd, ac mae'r Cyngor yn benderfynol o chwarae ei rôl er mwyn sicrhau bod camau go iawn yn cael eu cymryd yn y maes hwn.

Yn ddiddorol, mae datblygu ardaloedd "Cyfuno" - un o'r ymatebion i adroddiad "Diwylliant a Thlodi" 2014 - wedi dangos yr hyn y gellir ei gyflawni, hyd yn oed gyda symiau cymharol fach o

arian. Rydym ni'n ymwneud â phob un o'r ardaloedd "Cyfuno" ac yn sicrhau bod sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru yn rhoi sylw priodol i'r materion hyn yn eu gwaith. Rydym ni wrthi'n trafod gyda'n cydweithwyr dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol i weld a allem ddatblygu ymagwedd ar y cyd at gam nesaf datblygiad "Cyfuno".

Dylem hefyd wneud sylwadau ar adolygiad presennol Llywodraeth Cymru o Gymunedau yn Gyntaf, a gomisiynwyd gan eich cydweithiwr Carl Sargent AC.

Rydym ni wedi cyflwyno tystiolaeth yn rhan o'r ymgynghoriad diweddar. Ynddi, cydnabyddwn a chanmolwn gyflawniadau niferus Cymunedau yn Gyntaf ac rydym wedi gwerthfawrogi gweithio mewn partneriaeth â llawer ohonynt. Er hynny, cydnabyddwn fod adfywio'r ymagwedd at ddatblygu cymunedau cydnerth yng Nghymru yn cynnig cyfle i ychwanegu ysgogiad newydd, egni newydd a safbwyntiau newydd.

Wrth symud ymlaen, credwn y byddai'n hollbwysig dysgu o elfennau gorau'r model Cymunedau yn Gyntaf ac, yn arbennig, profiad yr hyrwyddwyr a'r gweithredwyr ar lefel leol. Mae'n rhaid i ni ychwanegu at eu llwyddiannau lle mae hyn yn gweithio'n dda.

Croesawn y pwyslais ar y Blynyddoedd Cynnar, Cyflogadwyedd a Grymuso, a gwyddwn fod y celfyddydau'n gallu parhau i gyfrannu'n dda at y tair blaenoriaeth hyn: mae sefydliadau celfyddydol eisoes yn ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau, a Noson Allan. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd go iawn i gysylltu â rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Bydd ein strategaeth datblygu'r gweithlu ar gyfer sector y celfyddydau yn annog mwy o fentrau ar gyfer prentisiaethau, mentora a datblygu sgiliau a gwirfoddoli. Pwysleisiwn hefyd fod gan ein sector celfyddydau cymunedol hanes da a chorff tystiolaeth i ddangos sut mae'r celfyddydau'n gallu grymuso pobl, cynyddu hyder ac uchelgeisiau ac, ar eu gorau, fod yn weddnewidiol. Mae'r prosiect Llysiau'r Vetch yn Sandfields yn Abertawe yn un enghraifft yn unig o'r ffordd ryfeddol y gall cymunedau lleol gael eu hailfywiogi trwy weithio tuag at nodau diwylliannol a chymdeithasol.

Mae ein hymrwymiad i **gydraddoldeb** yn ganolog i'n gwaith.

Mae cymdeithas deg a goddefgar yn gwerthfawrogi a pharchu anghenion, diddordebau a chreadigrwydd pawb. Mae'n gymdeithas sy'n methu dioddef anfantais, sy'n croesawu cydraddoldeb ac sy'n dathlu gwahaniaeth. Rydym ni eisiau i'r celfyddydau yng Nghymru gynnwys pawb. Rydym ni'n gwybod y bydd hyn yn gwneud y celfyddydau yng Nghymru yn fwy bywiog, cyffrous a pherthnasol. Mae ein gwaith yn y maes hwn wedi'i amlinellu yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae angen i ni a'r sector diwylliannol wneud gwaith ar frys os ydym am drosi cynlluniau llawn bwriadau da yn weithgareddau ymarferol sy'n cyflawni canlyniadau pendant. Y gwirionedd annifyr yw bod cynnydd yn araf yn y maes hwn, ac mae'r Cyngor yn benderfynol o fod yn fwy heriol yn yr agwedd hon o'n gwaith yn y dyfodol.

Rydym ni'n falch o weld y datganiad diwylliant yn hyrwyddo llwyddiant ein cynllun tocynnau Hynt ar gyfer pobl anabl a'u cymdeithion. Mae 39 Theatr a Chanolfan Gelfyddydau yng Nghymru yn aelodau o'r cynllun erbyn hyn, ac mae dros 7,500 o gardiau aelodaeth wedi cael eu dosbarthu ers i'r cynllun gael ei lansio'n swyddogol ym mis Ebrill 2015. Bu'n llwyddiant ysgubol ac mae cydweithwyr yng Nghyngor Celfyddydau Lloegr a'r Alban Greadigol wedi dangos diddordeb mewn gweithio gyda ni i weld sut gallai'r fenter gael effaith yn eu gwledydd hwy.

Un o'r heriau yn y maes hwn yw cynyddu capasiti sefydliadau y bu'n anodd iddynt gael gafael ar arian cyhoeddus yn y gorffennol. Mae llawer ohonynt yn perthyn i gymunedau amrywiol. Mae ein rhaglen Camau Creadigol wedi agor llwybrau newydd tuag at gyllid a chymorth proffesiynol, ac mae'r buddsoddiad hwn yn dechrau dwyn ffrwyth. Fel y gwyddoch, daeth Jukebox yn sefydliad newydd Portffolio Celfyddydol Cymru yn uniongyrchol o ganlyniad i'r cymorth a gawsant gennym ni. Rydym ni'n cynorthwyo cwmnïau eraill fel Ballet Nimba a cARTrefu Cymru (gyda chymorth gan Sefydliad Baring).

Rydym ni'n genedl ddwyieithog – yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac fel unigolion a chymunedau. Ac nid oes unrhyw beth yn gwneud Cymru'n fwy unigryw na'r **iaith Gymraeg**.

Mae'n fodd o ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant eithriadol o gyfoethog. Rydym ni'n gwneud synnwyr o'n hunaniaeth trwy'r ieithoedd a siaradwn. Rydym ni'n ymfalchïo mewn perthyn i gymuned sy'n ei hadnabod ei hun trwy'r geiriau sy'n cyfleu ei chredoau a'i phrofiadau diwylliannol.

Felly, byddwn yn mynd ati'n egnïol i hyrwyddo disgwyliad pobl i allu archwilio cyfoeth eu diwylliant a'u creadigrwydd eu hunain trwy'r iaith o'u dewis, boed hynny fel cynulleidfa, cyfranogwr neu artist. Ac rydym ni eisiau bod yn sefydliad arweiniol o ran y ffordd rydym ni'n ymateb i'r heriau a osodwyd yn Safonau newydd y Gymraeg.

Mae ymwneud â'r Eisteddfod Genedlaethol wedi helpu cynnwys celfyddydol i ffynnu mwy ar y Maes. Mae'n dechrau teimlo mwy fel Gŵyl Gelfyddydol, gyda'r Gymraeg yn ganolog iddi, wrth gwrs. Bydd yn cymryd mwy o amser i ddatblygiadau diwylliannol eraill gael effaith. Mae'r Cyngor wedi amlygu datblygiad Theatr Iaith Gymraeg fel blaenoriaeth bwysig. Bydd hyn yn heriol, oherwydd nid oes llawer o bartneriaid y gallwn weithio gyda hwy. Er hynny, cydnabyddwn fod angen sbardun newydd. Byddwn hefyd yn edrych ar ysgrifennu Cymraeg a fydd yn cael ei lywio, yn amlwg, gan ganlyniadau'r Adolygiad o Lenyddiaeth a Chyhoeddi a gynhelir gan Lywodraeth Cymru.

Yn y gorffennol, nid yw ein gwaith gyda'r sector **amatur a gwirfoddol** yng Nghymru wedi bod yn uchel ar ein rhestr blaenoriaethau. Cydnabyddwn, fodd bynnag, fod ymgysylltu gwirfoddol yn cynnig ystod o gyfleoedd i bobl fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Mae hefyd yn gallu bod yn gam tuag at addysg a hyfforddiant, ac weithiau at gyflogaeth. Mae gennym ni berthynas hirsefydlog â Chelfyddydau Gwirfoddol Cymru ac rydym wedi bod yn ymwneud â nifer o brosiectau ar y cyd. Fodd bynnag, teimlwn fod angen i ni edrych ar y maes hwn o'r newydd o ran natur ein hymgysylltiad yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, mae rhai prosiectau pwysig a diddorol yn digwydd.

Yn 2017, bydd menter a alluogwyd trwy ein partneriaeth â'r BBC yn cael ei chynnal am yr ail flwyddyn. Mae Cer i Greu yn benwythnos penodol yn y Gwanwyn i hyrwyddo bywiogrwydd creadigrwydd ledled Cymru a rhoi llwyfan iddo. Disgwylir iddo fod yn ddathliad blynyddol o'r cenhedloedd mwyaf creadigol. (Y llynedd, cynhaliwyd mwy o ddigwyddiadau cyfranogol, ac amrywiaeth ehangach ohonynt, yng Nghymru na gweddill y Deyrnas Unedig yn rhan o'r rhaglen Cer i Greu, sy'n gyflawniad y gobeithiwn ei ailadrodd).

Mae ein hymagwedd at dechnoleg Ddigidol yn esblygu a datblygu. Rydym ni wedi ceisio symud i ffwrdd oddi wrth Ddigidol fel 'categori' ar gyfer gweithgarwch neu brosiect. Nid hysbysfwrdd digidol yw'r rhyngrwyd mwyach, ond man cymdeithasol a chreadigol. Rydym ni eisiau i sefydliadau celfyddydol ymsefydlu'r defnydd o dechnoleg ddigidol yn rhan arferol o'u gweithgareddau busnes dydd i ddydd. Ond rydym ni hefyd eisiau iddynt gydnabod technoleg ddigidol fel offeryn creadigol, gan annog arloesi ac arbrofi. Byddwn yn parhau i sicrhau bod arian ar gael i gefnogi ymchwil a datblygu creadigol.

Mae gennym ni gysylltiadau cryf â phrif ddarlledwyr Cymru. Cyngor Celfyddydau Cymru, BBC Cymru Wales ac S4C yw'r buddsoddwyr mwyaf mewn creadigrwydd a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Rydym ni'n rhannu ymrwymiad cryf i ddyfnhau ac ehangu cynulleidfaoedd ar gyfer y celfyddydau. Ac rydym ni i gyd yn ymwneud ag eiriolaeth genedlaethol ar ran y celfyddydau a diwylliant i gefnogi ethos celfyddydau a darlledu a ariennir yn gyhoeddus.

Gyda'n gilydd, rydym ni'n rhannu ymrwymiad i gynnwys y cyhoedd yn y celfyddydau. Rydym ni hefyd yn frwd ynglŷn â datblygu a chefnogi'r doniau creadigol gorau. Trwy ein hymdrechion ar y cyd, rydym ni'n gweithio i wneud Cymru'n fwy bywiog, cynhwysol a deinamig yn economaidd. Trwy gydweithio'n agosach, credwn y gallwn greu mwy o gyfleoedd i gefnogi a meithrin creadigrwydd – comisiynu gwaith newydd, cefnogi arloesedd a mentro, a datblygu sgiliau technegol a chrefft yn y sector creadigol. I gyflawni'r nodau hyn, rydym ni'n ymrwymedig i weithio ar draws y llwyfannau rhwng y sectorau 'byw' a darlledu. Yn y blynyddoedd diweddar, mae hyn wedi golygu dathlu Dylan Thomas (yn ei ganmlwyddiant) a Roald Dahl yn Ninas yr Annisgwyl, llwyfan Gorwelion ar gyfer bandiau o Gymru, a'r prosiect Cer i Greu.

Mae'r Bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a llywodraeth leol yn darparu sylfaen ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru.

Rhyngom, mae gennym ni'r potensial i gyffwrdd â bywydau pawb yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol yn cyfrannu eu gwybodaeth leol, eu cyfrifoldebau eang, eu dulliau darparu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a'u cynrychiolaeth ddemocrataidd. Mae'r Cyngor Celfyddydau yn cyfrannu arbenigedd a safbwynt cenedlaethol a rhyngwladol ar ymarfer a datblygu'r celfyddydau. Mae'r ddau ohonom yn darparu cyllid a buddsoddiad sy'n ariannu gweithgarwch creadigol. Mae'n gyfuniad grymus.

Fodd bynnag, yn ogystal â newidiadau i'r cyd-destun strwythurol ar draws llywodraeth leol, mae cyllidebau awdurdod lleol ar gyfer diwylliant yn lleihau'n gyflym hefyd.

Nid oes un ateb unigol i atal y dirywiad ariannol hwn. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ar sail achosion unigol, gan wneud ein gorau glas i'w darbwyllo o werth buddsoddiad diwylliannol. Ac wrth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ffurfio, byddwn yn gweithio gyda hwy i sicrhau bod y celfyddydau'n eitem sefydlog ar eu hagenda wrth symud ymlaen. Mae absenoldeb gofyniad gorfodol i ariannu gweithgarwch diwylliannol yn gwanhau ein dylanwad. Fodd bynnag, mae safle amlwg diwylliant yn y ddeddfwriaeth Lesiant newydd wedi ailfywiogi'r ddadl ac rydym ni'n hyrwyddo hyn yn ddigywilydd fel llwybr y dylai awdurdodau lleol ei ddilyn er mwyn ailystyried cynllunio diwylliannol.

Gyda hyn mewn golwg, rydym ni wedi datblygu llyfryn hyrwyddol i gynyddu ymwybyddiaeth o sut gall y celfyddydau dargedu pob un o 7 nod y Ddeddf. Mae'r llyfryn wrthi'n cael ei anfon at bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal â Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol.

<u>Ymrwymiadau Rhaglenni Diwylliannol Llywodraeth Cymru</u>

Yn ogystal â'r pynciau y cyfeirir atynt uchod, amlygwn nifer o Ymrwymiadau Rhaglenni ychwanegol hefyd.

Bydd cyflwyno Cronfa Her ar gyfer sefydliadau **celfyddydau a chwaraeon** yn ychwanegiad newydd calonogol i'r cyd-destun buddsoddi. Rydym ni wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â'n cydweithwyr yn Chwaraeon Cymru ac yn gobeithio bod mewn sefyllfa i drafod rhai syniadau pendant gyda chi'n fuan. Fodd bynnag, byddai o gymorth i ni pe gallem gael ychydig mwy o wybodaeth am gwmpas a graddfa. Mewn trafodaethau blaenorol, rydych chi wedi awgrymu eich bod chi'n awyddus i'r Gronfa ganolbwyntio ar weithgareddau cymunedol ac y bydd lefel y cyllid posibl yn gymedrol. Bydd cadarnhau hyn yn ein helpu ni i ddatblygu cynigion realistig sy'n adlewyrchu eich amcanion yn well.

Elfen newydd ddiddorol o'ch datganiad diwylliant yw cynnwys astudiaeth ddichonoldeb i archwilio sefydlu **Oriel Gelf Genedlaethol**.

Yn ôl yn 2008, gweithiom gyda'r Llywodraeth a'r Amgueddfa Genedlaethol i gyhoeddi astudiaeth ddichonoldeb ar Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Celf Gyfoes a blaengynllun ar gyfer lleoli Celf ym Mharc Cathays yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Ni symudwyd ymlaen â'r cynnig cyffredinol o ganlyniad i'r gost debygol a amlygwyd ar y pryd. Ond roedd datblygiadau celfyddydau gweledol eraill wedi digwydd, gan gynnwys bloc yr Adain Ddwyreiniol yn yr Amgueddfa yn ogystal â gwella prosiectau y tu allan i'r brifddinas, fel Mostyn yng Ngogledd Cymru ac Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe.

Mae'n adeg briodol i ailystyried rhywfaint o'r gwaith hwn ac archwilio pa syniadau newydd y gellid eu defnyddio, a pha gyfleoedd newydd a allai fod ar gael. Cyn i ni fynd yn rhy bell, fe allai fod yn ddefnyddiol cael cadarnhad ynglŷn â llond dyrnaid o ystyriaethau ymarferol. Er enghraifft, a ydym

ni'n sôn am Oriel Gelf Genedlaethol neu Oriel Genedlaethol Celf Gyfoes; sut gallai unrhyw fenter yn y dyfodol gysylltu â chasgliadau hanesyddol Cymru a sut gallai'r rhain gael eu dosbarthu o dan drefniadau newydd.

Byddai'n ymddangos yn synhwyrol cynnwys Amgueddfa Genedlaethol Cymru o ystyried perthnasedd y mater hwn i'w cenhadaeth gyffredinol. Rydym ni wedi cynnal cyfarfodydd cychwynnol â'r Amgueddfa ac yn awgrymu, pe byddai'n ddefnyddiol, y gallem ddatblygu brîff mwy penodol gyda'n gilydd ar gyfer cam nesaf y gwaith. Mae'n bwysig bod materion yn ymwneud â chwmpas a chanlyniadau'n cael eu diffinio'n fanwl gywir er mwyn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus wrth ddatblygu'r gwaith dichonoldeb hwn.

I grynhoi…

Hyderaf y gwelwch o'r llythyr hwn ein bod ni'n rhannu llawer o'r nodau yn eich datganiad diwylliant. Fodd bynnag, gobeithiaf y maddeuwch i mi am gynnig rhai sylwadau ar ddarparu adnoddau ar gyfer y weledigaeth yn eich datganiad.

Croesawyd y cynnydd yng nghymorth grant y flwyddyn nesaf yn frwd. Mae'r sector wedi cydnabod eich cefnogaeth bersonol ers tro, ond mae setliad y flwyddyn nesaf yn cadarnhau eich bod chi'n barod i ategu brwdfrydedd â gweithredu go iawn.

Mae hyn yn eithriadol o bwysig a gobeithiwn y bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei ailadrodd yn y blynyddoedd i ddod. Fel y byddech yn disgwyl, byddem yn cefnogi eich uchelgais i gynnig **setliadau cyllido tair blynedd** yn frwd. Dyma'r rhan sydd ar goll o'r strategaeth fuddsoddi a fyddai'n caniatáu i'n sefydliadau diwylliannol allweddol gynllunio'n fwy hyderus ar gyfer y tymor hwy.

Fodd bynnag, mae buddsoddiad calonogol y Llywodraeth y flwyddyn nesaf yn cyd-fynd â dirywiad difrifol yn incwm rhagamcanol y **Loteri Genedlaethol** a welwyd eisoes yn 2016/17.

Mae'r datganiad yn galw ar Ddosbarthwyr Arian y Loteri yng Nghymru i gydweithredu'n well. Dyma'r peth iawn i'w wneud yn sicr, ac rydym ni eisoes yn trafod gyda'n cydweithwyr sut y gallai hyn gael ei gyflawni. Ond ar adeg o gyfle go iawn, mae tebygrwydd cynyddol bellach y bydd yr "achosion da" (y mae diwylliant yn un ohonynt) yn derbyn cryn dipyn yn llai o incwm o'r Loteri Genedlaethol eleni ac yn y dyfodol.

Mae ein model o werthiannau tocynnau'r Loteri Genedlaethol yn awgrymu y gallai ein hincwm eleni fod rhwng 11 ac 16% yn fyr o'r rhagamcaniad a roddwyd i ni'n wreiddiol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae perfformiad gwael prif gêm y Loteri Genedlaethol, agwedd gystadleuol Loterïau eraill (fel y Loteri Cod Post a'r Loteri Iechyd) a thwf betio ar-lein ar ganlyniadau'r Loteri (Lottoland) yn cael effaith arwyddocaol iawn. Rydym ni mor bryderus am y sefyllfa fel fy mod wedi cynnwys brîff penodol am y Loteri fel **atodiad** i'r llythyr hwn.

Materion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw'r rhain yn amlwg, ond wrth i'r berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'i chenhedloedd gael ei thrafod, mae'n hanfodol bod Cymru yn parhau i dderbyn ei chyfran deg o gyllid y Deyrnas Unedig ar gyfer diwylliant. Sylweddolaf nad yw cytuno ar beth yw "cyfran deg" yn syml. Er hynny, fe'm tarwyd gan gyhoeddiadau diweddar ynglŷn â chyllid ar gyfer y seilwaith diwylliannol yn Lloegr. Efallai y byddwch yn cofio'r cyhoeddiad yn natganiad Cyllideb mis Tachwedd 2015 y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ariannu buddsoddiadau cyfalaf mewn diwylliant ar draws y wlad i gyfanswm o £1.6 biliwn erbyn 2020-21. Roedd hyn yn cynnwys £78 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer y Ffatri ym Manceinion, £2.5 miliwn o gyllid ar gyfer yr Amgueddfa Gwyddoniaeth a Diwydiant ym Manceinion, £5 miliwn ar gyfer Oriel De Asia newydd yn Amgueddfa Manceinion a £4 miliwn ar gyfer Hyb Dawns Birmingham.

Nid wyf yn ddigon cyfarwydd â dulliau cyllido'r Llywodraeth i ddeall goblygiadau hyn. Rwyf yn ymwybodol, yn amlwg, bod Diwylliant yn fater datganoledig. Fodd bynnag, roeddwn i'n credu pe byddai Trysorlys y Deyrnas Unedig yn dyrannu symiau sylweddol uwchlaw dyraniad Adrannol craidd, y byddai hynny'n arwain at "Ganlyniad Barnett".

Nid wyf yn gwybod a yw hyn yn berthnasol i'r achosion uchod neu a yw'r buddsoddiad sylweddol yn y Ffatri ym Manceinion yn creu rhyw fath o gynsail ar gyfer y Deyrnas Unedig ehangach. Fodd bynnag, mae'n fy nharo i, er mwyn i Gymru allu fforddio prosiectau seilwaith mawr (fel Oriel Gelf Genedlaethol neu adnewyddu Neuadd Dewi Sant, efallai), daw mynediad at arian a ddelir yn ganolog yn bwysig iawn ac mae'n rhaid i fynediad teg at fuddsoddiad eithriadol gan y Trysorlys mewn diwylliant gael ei ystyried yn achos cyllido Cymru.

Yn olaf, gorffennaf lle y dechreuais – trwy groesawu'r datganiad pwysig hwn o fwriad.

Rydych chi'n gobeithio y bydd y ddogfen yn ysgogi mwy o drafodaethau ynglŷn â gwerth diwylliant. Dyna a ddigwyddodd o amgylch bwrdd y Cyngor yn sicr. Mae'r celfyddydau a diwylliant yn cyffwrdd â phob agwedd ar agenda ddiwylliannol, economaidd a chymdeithasol Llywodraeth Cymru. Bydd eich eiriolaeth a'ch cefnogaeth barhaus o ddiwylliant ar draws y Llywodraeth yn un o'r pethau allweddol sy'n galluogi llwyddiant. A gallwch ddibynnu arnom ni i weithio'n agos gyda chi er mwyn sicrhau bod y buddion y gall y celfyddydau eu cynnig yn cael eu plethu ar draws holl feysydd perthnasol gweithgarwch y Llywodraeth.

Gyda dymuniadau gorau

Phil

Phil George
Cadeirydd

Brîff

# Gostyngiadau yn incwm y Loteri Genedlaethol

1. Mae'r cyhoedd wedi codi £35 biliwn ar gyfer Achosion Da ar hyd a lled y Deyrnas Unedig trwy chwarae'r Loteri Genedlaethol ers iddi ddechrau. Rydym ni, Gyngor Celfyddydau Cymru, wedi buddsoddi hyn mewn dros **11,621** o brosiectau yng Nghymru, sy'n werth hyd at **£261 miliwn**. Mae gan gydweithwyr eraill sy'n dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol (Chwaraeon Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Loteri Fawr) ganlyniadau yr un mor drawiadol i'w dangos.

2. Mae'r prosiectau hyn yn amrywio'n fawr o grantiau bach sy'n helpu cymunedau lleol i ffynnu, prosiectau sy'n cefnogi a dathlu ein bywyd diwylliannol cyfoethog, i'r cyllid a ysbrydolodd lwyddiant mewn chwaraeon yng Ngemau'r Gymanwlad, y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd. Y Loteri Genedlaethol yw un o lwyddiannau mawr y Llywodraeth, gan ei bod yn bodoli er budd y cyhoedd yn unig.

3. Ond mae tueddiadau diweddar o ran incwm y Loteri Genedlaethol wedi bod yn achos pryder mawr ar draws teulu'r Loteri. Rydym ni'n gweld gostyngiad mewn incwm Achosion Da a allai gael effaith sylweddol ar y cymunedau a wasanaethwn. Mae Camelot yn rhagfynegi 'bwlch achosion da' o rhwng £165 miliwn a £235 miliwn ar hyn o bryd yn erbyn rhagamcanion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer eleni. Fodd bynnag, o'i fesur yn erbyn yr union ffigurau ar gyfer y llynedd, mae'r bwlch hwn yn ehangu i ostyngiad posibl o 11-16% yn yr arian sy'n mynd i Achosion Da yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

4. Mae incwm y Loteri Genedlaethol wedi bod yn sefydlog a rhagfynegadwy ar y cyfan yn ystod y degawd diwethaf. Felly, mae'r duedd bresennol hon yn peri pryder ac mae ganddi oblygiadau sylweddol i Achosion Da. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod newidiadau yn y farchnad Loteri ehangach sy'n cael, ac a fydd yn parhau i gael, effaith barhaus ar incwm Achosion Da os nad eir i'r afael â hwy.

5. Byddwn ni, fel Dosbarthwyr Arian y Loteri, yn gwneud yr hyn a allwn i fynd i'r afael â'r materion hyn. Ochr yn ochr â Camelot, rydym ni'n ystyried sut gallwn ailfywiogi delwedd y Loteri Genedlaethol trwy bwysleisio'r buddsoddiad unigryw mewn Achosion Da sy'n bosibl trwy brynu tocyn. Mae'n amlwg y bydd llwyddiant tymor hir brand y Loteri yn dibynnu'n drwm ar gael ei arwain yn fwy gan Achosion Da. Mae Dosbarthwyr yng Nghymru wedi ymrwymo i amddiffyn a gwella brand y Loteri Genedlaethol yn fwy gweithredol. Byddwn yn gweithio gyda phawb sydd â buddiant yn ei hiechyd i fynegi a dadlau'r achos dros y Loteri Genedlaethol.

6. Fodd bynnag, dim ond hyn a hyn y gall yr ymdrechion hyn ei wneud i ddiogelu incwm y Loteri Genedlaethol. Mae ysgogiadau y gall Llywodraeth y Deyrnas Unedig eu defnyddio i fynd i'r afael â'r mater, yn bennaf trwy reoleiddio'r loteri a hapchwarae.

7. Fel Dosbarthwyr, rydym ni'n cefnogi'n gryf ffyrdd o'i gwneud hi'n haws i loterïau bach, lleol godi refeniw ar gyfer achosion llawr gwlad. Credwn fod y rhain yn rhan bwysig o'r ecoleg gyllido. Fodd bynnag, rydym ni'n parhau i bryderu bod loterïau mawr, preifat, y mae llawer ohonynt yn defnyddio model ambarél i'w marchnata eu hunain yn genedlaethol, yn cynrychioli risg sylweddol i Achosion Da y Loteri Genedlaethol.

8. Cydnabu Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Loterïau Cymdeithas, mis Mawrth 2015, yr angen am fesurau rheoleiddio gwahanol ar gyfer loterïau cymdeithas 'ambarél' mawr, gan gynnwys terfyn ar gostau gweithredu a chymhellion i gynyddu cyfran y gwerthiannau tocynnau sy'n mynd i achosion da. Roedd yr Adroddiad hefyd yn argymell gosod terfynau cyffredinol ar y symiau y ceir eu codi neu eu talu mewn gwobrau, yn ogystal â nifer o ddewisiadau i gyfyngu maint loterïau ambarél neu drin cymdeithasau cyfansoddol loterïau cymdeithas mwy o faint yn wahanol. Credwn y dylai argymhellion y Pwyllgor Dethol gael eu hystyried yn ofalus yn sgil y ffaith bod effeithiau loterïau ambarél ar incwm y Loteri Genedlaethol wedi dod yn fwy eglur.

9. Bydd rheoleiddio mathau penodol o Loterïau yn llymach yn helpu i amddiffyn rôl unigryw'r Loteri Genedlaethol. Ond, yn y pen draw, credwn y gall gweithredu arwyddocaol i unioni'r dirywiad mewn incwm i achosion da ddigwydd dim ond trwy ailosod cyfran arian y Loteri sy'n mynd i achosion da yn gyfredol. Ar hyn o bryd, mae'r Loteri 'draddodiadol' yn darparu 28 ceiniog yn y bunt i achosion da, ond mae ei gwerthiannau'n lleihau. Mewn cyferbyniad, mae Cardiau Crafu – sy'n farchnad gynyddol – yn darparu 10 ceiniog yn y bunt yn unig.

10. Ac yntau'n gwmni masnachol, mae'n iawn bod Camelot yn falch o'i gynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn gwerthiannau cyffredinol. Ond pan fydd incwm ar gyfer achosion da (sef y sail resymegol dros sefydlu'r Loteri Genedlaethol) yn lleihau, mae hyn yn teimlo fel buddugoliaeth Byrrhig. Sylweddolwn fod newid telerau cytundeb trwydded yng nghanol y tymor yn broblemus, ond dadleuwn ei bod er budd pawb i gydweithio er mwyn gwyrdroi'r hyn sy'n dod yn argyfwng cynyddol.

11. Ystyrir yn gyffredinol bod arian Achosion Da o'r Loteri Genedlaethol yn ffynhonnell hollbwysig a sicr o gyllid ar gyfer diwylliant, chwaraeon a chymdeithas sifil, yn enwedig sefydliadau llai sy'n gallu bod mewn sefyllfa fregus yn yr hinsawdd ariannol hon. Bydd gostyngiadau parhaus yn cael effaith ddifrifol ar allu cannoedd o sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau sydd o fudd i'r cyhoedd ledled Cymru. Mae angen gweithredu yn awr er mwyn atal hyn.